LG 12
Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
Local Government and Elections (Wales) Bill
Ymateb gan: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Response from: Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Rhagfyr 2019

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Cyfyngwn ein sylwadau i Ran 5 o'r Bil, sef Cydweithio gan Brif Gynghorau.

2. Cytunwn â'r egwyddor o sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol a fydd yn annog ac yn cefnogi dulliau mwy cydlynus, cyson ac effeithlon – gyda phwyslais ar reolaeth ac atebolrwydd democrataidd.

3. Sail statudol

3.1. Rydym yn arbennig o gefnogol i'r cynnig y bydd y 'cyrff corfforedig' wedi'u sefydlu ar sail statudol.

3.2. Yn nhyb UCAC, bydd hynny yn ei hun yn golygu eu bod yn rhan 'swyddogol' o'r gyfundrefn ehangach, ac felly bod eu statws, eu pwerau, eu dulliau o weithio ac unrhyw drefniadau atebolrwydd yn glir o'r cychwyn - heb yr angen am negodi, addasu, herio ac ati.

3.3. Mantais arall i'r statws statudol yw y bydd y cyrff yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol – yn yr un modd â rhannau eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus.

3.4. Rydym o'r farn bod yr eglurder hynny'n fanteisiol dros ben i bob rhanddeiliad, a chytunwn â'r manteision a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Pennod 13 o'r Memorandwm Esboniadol).

4. Dau lwybr at sefydlu

4.1. Cytunwn yn ogystal â'r cynnig bod modd i'r cynnig i greu corff corfforedig ddod o gyfeiriad y 'prif gynghorau' neu ar argymhelliad Gweinidogion Cymru – a hynny yn dilyn ymgynghori gyda'r bobl a'r cyrff a restrir yn y Bil.

5. Gwella addysg

5.1. Rydym yn cyd-fynd â'r cynnig bod 'gwella addysg' yn un o'r meysydd ble gall Gweinidogion Cymru gymell sefydlu cydbwyllgor corfforedig. Gan fod trefniadau cydweithio rhanbarthol eisoes yn eu lle, ni fyddai'n synhwyrol eithrio maes gwella addysg o gwmpas pwerau Gweinidogion Cymru yn hyn o beth. Mae'r trefniadau cydweithio ym maes gwella addysg wedi'u nodweddu gan anghysondeb ac aneglurder o'r cychwyn, gyda diffyg tryloywder ac atebolrwydd yn broblemau ychwanegol. Byddai unrhyw gamau i fynd i'r afael â hyn, a dod â threfn a chysondeb i'r maes, yn debygol o dderbyn croeso gan y sector, ac yn sicr gan UCAC.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru